

PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 8 CHWEFROR 2021

Yn Cynghorydd Weaver(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Dilwar Ali

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nodwyd.

2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lay

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

6 : DYRANIAD YR ASEDAU STRATEGOL

Amlinellwyd yr adroddiad ar Ddyraniad yr Asedau Strategol i'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau y dylai fod yn gam syml, gan fod y ddwy gronfa gyda Blackrock.

PENDERFYNWYD:

- (1) Cymeradwyo Dyraniad yr Asedau Strategol 2021/22
- (2) Cymeradwyo trosglwyddo daliad Ecwiti'r DU goddefol presennol y Gronfa i'r Gronfa Tracio Carbon Isel.
- (3) Nodi a chymeradwyo symud i safbwynt Baillie Gifford sydd wedi'i alinio â chytundeb Paris ar gyfer eu portffolio o fewn Cronfa Twf Byd-eang PPC.

7 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hwn yn adroddiad diweddar rheolaidd i'r Pwyllgor fel rhan o'r broses adrodd.

Nododd yr Aelodau fod trosglwyddiad PPC i Ecwitiau Byd-eang wrthi'n mynd rhagddo.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

8 : STRATEGAETH WEINYDDU

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad hwn wedi bod gerbron y Bwrdd Pensiwn Lleol er mwyn ei weld a rhoi sylwadau arno a'i fod yn fodlon. Mae'r Strategaeth yn llunio'r berthynas rhwng y gronfa a chyflogwyr ac yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau.

Caiff y Strategaeth ei hadolygu'n flynyddol oni bai bod newidiadau mewn rheoliadau ac os felly byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor yn gynharach, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Strategaeth Weinyddu.

9 : POLISI CYFATHREBU

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Polisi hwn wedi bod gerbron y Bwrdd Pensiwn Lleol er mwyn ei weld a rhoi sylwadau arno a'i fod yn gefnogol ohono. Ystyrir bod cael polisi cyfathrebu ar waith yn arfer gorau.

Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol oni bai bod newidiadau ac os felly byddai'r Polisi yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor yn gynharach, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r Polisi Cyfathrebu.

10 : Y GOFRESTR RISGIAU;

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gofrestr wedi'i diweddarau ers iddi ddod gerbron y pwyllgor ddiwethaf ym mis Tachwedd 2020. Y tri risg newydd oedd y Taliadau/Cap Ymadael; Materion yn ymwneud â McCloud a Phwysau Adnoddau. Nodwyd bod Pwysau Adnoddau wedi'u nodi gan y Bwrdd Pensiwn Lleol a ofynnodd iddo gael ei ychwanegu fel risg.

Trafododd yr Aelodau y risgiau a'r camau lliniaru y byddai eu hangen wrth symud ymlaen. Nodwyd y byddai trafodaethau'n dechrau ar fwy o adnoddau i ddelio â phwysau. Cydnabu swyddogion ac aelodau waith y tîm, yn ymdrin â newidiadau mewn arferion yn ystod pandemig.

Esboniodd swyddogion fod Cyflogwyr wedi cael templedi i'w cwblhau a'u hanfon yn ôl, i ddarparu gwybodaeth am unrhyw newidiadau o ran telerau ers mis Ebrill 2014, neu unrhyw seibiannau gwasanaeth.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyflogwyr heb ymateb oherwydd Covid. Dywedodd swyddogion eu bod wedi gofyn i bob cyflogwr am hyn ond mae'n ymddangos bod pob un ohonynt ar agor ac yn cyfathrebu â'r Cyngor; Mae Swyddog wedi dweud y dylai Cyflogwyr roi gwybod iddynt os ydynt yn ei chael yn anodd bodloni'r terfynau amser.

PENDERFYNWYD: nodi'r Gofrestr Risg

11 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Nodwyd.

12 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

13 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd. Roedd y Pwyllgor yn dymuno diolch i'r staff am eu holl waith caled.

14 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Dim.

15 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

17 Mai 2021

Daeth y cyfarfod i ben am 5.26 pm